Cyn gwyliau hanner tymor cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch yr ysgol. Cymerodd y plant ran mewn darllen, gweddio a chanu a chafwyd anerchiad arbennig o dda gan y Parchedig J. E. Wynne Davies, Aberystwyth. Yr oedd y plant wrth eu bodd yn gwrando arno ac yntau'n cyflwyno ei neges mewn modd mor effeithiol.

Cymerodd y plant ran yn y cwis llyfrau'n ddiweddar a chawsant hwyl wrth astudio'r llyfrau. Yr oedd dau dim gennym eleni. Yn awr y mae'r dysgwyr yn edrych ymlaen i'w cwis hwy rywbryd tua chanol Tachwedd.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o Gymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol ddechrau'r mis. Braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf yw: Cadeirydd - R. T. Evans; is-gadeirydd - Mr D. Rees Morgan; ysgrifennydd - Mrs N. Collins; trysorydd - Mr Alan Evans. Aelodau'r pwyllgor Mrs M. Baylis a Mr Merfyn Hughes. Cynrychiolydd y gymdeithas ar bwyllgor chwaraeon y cylch yw Mr R. W. Davies. Diolchwyd yn ddidwyll iawn i Mrs S. Thacker a Mrs Eirlys Evans am eu llafur am gyfnod maith fel ysgrifennydd a thrysorydd y gymdeithas ac i Mrs Gwenan Price am ei chyfraniad hithau fel aelod o'r pwyllgor. Trafodwyd nifer o bethau'n ystod y cyfarfod a mynegwyd barn ar wahanol bynciau. Diolchwyd i'r rhieni i gyd am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Y mae'r tim pel-droed yn gwneud gwaith ardderchog iawn y tymor hwn. Braf yw gweld y bechgyn yn chwarae ar faes Plas-crug bob bore Sadwrn ac yn cael cymaint o bleser a mwynhad o wneud hynny. Cawsom y cyfle i groesawu tim o Bontrhydfendigaid yma i'r Penrhyn un prynhawn a hyfryd oedd cael estyn croeso i dim o Swyddffynnon un bore Sadwrn. Profodd tim ysgol Penrhyn-coch yn rhy gryf iddynt, er hynny. Mae'r merched hefyd yn cael llawer mwy o hwyl ar yr hoci eleni ac yn edrych ymlaen bob bore Sadwrn i gyfarfod gwahanol dimoedd ar y maes yn Aberystwyth. Da iawn bawb ohonoch.